## P-04-514 Dylid adeiladu gorsaf bŵer sy'n defnyddio glo glân o Gymru aneu gorsaf ynni adnewyddadwy yn hytrach na gorsaf niwclear arfaethedig Wylfa B ar Ynys Môn, Gohebiaeth gan Pobl Atal Wylfa B (PAWB) i'r Tîm Clercod, 10.02.2014.

Annwyl Kayleigh Driscoll,

Ysgrifennaf atoch ar ran mudiad PAWB, Pobl Atal Wylfa B/People Against Wylfa B mewn ymateb i lythyr y gweinidog Alun Davies AC at gadeirydd y Pwyllgor Deisebau William Powell AC.

Mae'r llythyr yn un siomedig ac arwynebol ar sawl cyfrif. Cyfeirir ynddo at y rhan y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl y bydd tanwydd ffosil yn dal i chwarae ym mywyd Cymru. Cyfeirir yn arwynebol at dechnoleg dal a storio carbon heb ymhelaethu o gwbl ar y ffaith bod Hitachi yn honni eu bod yn arwain gyda'r dechnoleg hon. Prif ergyd deiseb Cymru Sofren yw na ddylai GEHitachi wastraffu biliynau o bunnoedd ar adweithyddion niwclear drud, peryglus ac ymbelydrol wenwynig yn y Wylfa ym Môn. Dylai Llywodraeth Cymru drafod beth yw'r posibiliadau i Hitachi fuddsoddi mewn technoleg glo glân yng Nghymru.

Mae dadansoddiad y Gweinidog o bosibiliadu prosiect Wylfa B yn arwynebol iawn. Sonnir yn unig am y budd economaidd posibl i ogledd orllewin Cymru o fwrw ymlaen i godi Wylfa B. Mae cwmni Horizon wedi cyfaddef yn gyhoeddus y byddai o leiaf 75% o weithlu adeiladu Wylfa B yn dod o'r tu allan i'r ardal leol. Yn y cyd-destun hwn, golyga hynny Gogledd Cymru gyfan hyd at Gaer a Glannau Merswy. Felly, mae gorddweud mawr am y swyddi posibl i bobl lleol.

Ni chyfeiria'r Gweinidog o gwbl at beth fyddai'n digwydd i'r gwastraff ymbelydrol fyddai'n cael ei gynhyrchu o adweithyddion dwr berwedig Hitachi. Yr hunllef a wynebai pobl Môn a gweddill Cymru fyddai gweld storio gwastraff dwy waith poethach a dwy waith mwy ymbelydrol ar safle'r Wylfa am o leiaf gant a hanner o flynyddoedd. Unwaith eto, cyfaddefodd Horizon mai dyna fyddai'n digwydd. Nid oes gan y Wladwriaeth Brydeinig syniad beth i'w wneud gyda'r holl wastraff ymbelydrol a gynhyrchwyd dros yr hanner canrif ddiwethaf, heb sôn am ychwanegu at y mynydd gwastraff hwnnw gyda math newydd peryclach o wastraff ymbelydrol. Pwy mewn difrif all roi unrhyw sicrwydd y byddai'r fath storfa ar wyneb y tir yng ngogledd Môn yn ddiogel am gyfnod mor faith. Pwy all warantu sefydlogrwydd gwleidyddol, economaidd, milwrol, hinsoddol a daearegol dros y fath gyfnod. Mae'r gwleidyddion yn Llundain a Chaerdydd sy'n rhoi cefnogaeth ddall i dechnoleg beryglus, hen ffasiwn, ac eithriadol o ddrud yn gormesu pobl Cymru yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ieithyddol a diwylliannol,

heb sôn am yn economaidd.Gwelsom hefyd trwy'r cytundeb ar y pris taro o £92.50 y megawatt/awr dros gyfnod o 35 mlynedd rhwng llywodraeth San Steffan ac EDF, ynglyn â chodi dau adweithydd EPR yn Hinkley Point C llai nac ugain milltir ar draws aber yr Hafren o Senedd Cymru, mai ni fel defnyddwyr trydan a threthdalwyr fydd yn talu trwy'n trwynau am drydan niwclear drud fydd yn fygythiad i'n holl ecosystemau. Testun diolch sydd ar hyn o bryd bod Comisiynydd Cystadleuaeth yr Undeb Ewropeaidd wedi galw'r cytundeb yma i mewn i'w archwilio os yw'n groes i ganllawiau cystadleuaeth yr Undeb. Eisoes, cyhoeddodd adroddiad cychwynnol sy'n feirniadol iawn o'r cytundeb, a'i fod yn drymlwythog o gymorthdâl gwladwriaethol annheg. Disgwylir yn awr y bydd y Comisiynydd yn paratoi adroddiad trylwyr ar y cytundeb. Gan hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y caiff unrhyw orsaf niwclear newydd ei chodi yn Lloegr na Chymru.

Felly, priodol fyddai i aelodau'r Pwyllgor Deisebau roi ystyriaeth ffafriol a manwl i ddeiseb Cymru Sofren yng Nghyfarfdo Chwefror 18.

Yn gywir,

Dylan Morgan, Cydlynydd PAWB, Pobl Atal Wlfa B